# DOGFEN FRIFFIO: SICRHAU BWYD IACH, CYNALIADWY A FFORDDIADWY YM MHOB CYMUNED

## PARTNERIAETHAU BWYD YN DARPARU'R ATEBION

Mae partneriaethau bwyd yn dod â rhanddeiliaid o bob rhan o'r system fwyd ynghyd. Boed yn awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector cymunedol a gwirfoddol, ffermwyr neu'n fusnesau lleol, maent yn datblygu cydweledigaeth i greu dyfodol bwyd mwy cynaliadwy ac i gydgysylltu'r camau gweithredu sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth hon. Drwy fabwysiadu dull system gyfan o ymdrin â bwyd, mae partneriaethau bwyd yn llwyddo i gysylltu materion fel tlodi bwyd, salwch, amaethyddiaeth, diogeled bwyd a newid hinsawdd i ddatblygu atebion ar draws y sector sy'n trawsnewid bwyd a ffermio. Gall partneriaethau bwyd arwain at amryw o fanteision sy'n amrywio o:

- Ddatblygu gwydnwch lleol, busnesau bwyd ffyniannus, cymunedau cryf
- Gwella iechyd a llesiant y cyhoedd
- Helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur
- Denu buddsoddiad, gan sicrhau bod cronfeydd yn cael effaith ac yn cyflawni amryw o nodau polisi

### Y sefyllfa bresennol

Yng nghyd-destun adfer yr economi, a hynny ochr yn ochr â'r argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd a natur parhaus, mae'n hanfodol cael dulliau arloesol, y gellir eu hefelychu ac sy'n berthnasol yn lleol, er mwyn sicrhau cyflenwad bwyd iach a chynaliadwy. Mae partneriaethau bwyd yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ddarparu atebion hirdymor i gyflenwi bwyd a mynediad at fwyd, gan sicrhau cydweithredu a chamau gweithredu uniongyrchol ar fwyd, gan barhau i ganolbwyntio yn yr hirdymor ar drawsnewid y system fwyd. Nid yw'r gefnogaeth ychwanegol i bartneriaethau bwyd ac i'w hyrwyddo yng Nghymru a'r Alban ar gael yn y gwledydd eraill. Mae angen partneriaeth fwyd ym mhob awdurdod lleol.

### Galwadau i'r Llywodraeth weithredu:

- Ariannu partneriaeth fwyd a darparu adnoddau ar ei chyfer ym mhob awdurdod lleol, ynghyd â strategaeth fwyd wedi'i chymeradwyo gan y cyngor.
- Cyflwyno Bil Bwyd Da ym mhob gwlad (mae un eisoes ar waith yn yr Alban), wedi'i ategu gan gorff annibynnol i hyrwyddo camau gweithredu ac i archwilio cynnydd.

### Galwadau i Aelodau Seneddol weithredu:

- Hyrwyddo eich partneriaeth fwyd a sefydliad bwyd lleol yn Nhŷ'r Cyffredin, gan gynnwys mewn trafodaethau, gwrandawiadau pwyllgorau dethol ac mewn mannau eraill
- Ymweld â phrosiectau a mentrau bwyd lleol i ddeall yn well yr heriau y mae'r etholaethau yn eu hwynebu o ran cael mynediad at fwyd iach a chynaliadwy a'i ddarparu
- Ymgynghori â'ch partneriaeth fwyd fel arbenigwyr ar greu atebion lleol i'r heriau y mae'r DU yn eu hwynebu

## Amdanom ni

Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yw un o'r mudiadau cymdeithasol sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Rydym yn fudiad sy'n datblygu gydag 114 o bartneriaethau bwyd mewn dinasoedd a mannau eraill ledled y wlad. Drwy'r partneriaethau bwyd hyn traws sector hyn, mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn cydweithio gyda'r trydydd sector, busnesau a sefydliadau academaidd i drawsnewid y system fwyd leol er mwyn gwella iechyd a llesiant y cyhoedd; meithrin cysylltiadau a gwytnwch cymunedol; creu economïau bwyd lleol ffyniannus ac amrywiol; a helpu i fynd i'r afael â gwastraff a'r argyfwng hinsawdd a natur, sy'n faterion cynaliadwyedd hollbwysig.

info@sustainablefoodplaces.org

Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn rhaglen bartneriaeth sy'n cael ei chydlynu gan chwe elusen bwyd cenedlaethol: Soil Association, Food Matters, Sustain, Synnwyr Bwyd Cymru, Nourish Scotland a Nourish NI

**Trefnwyr y digwyddiad yw:**

Mae **Sustain: y gynghrair ar gyfer gwell bwyd a ffermio**, yn hyrwyddo polisïau ac arferion yn ymwneud â bwyd ac amaethyddiaeth sy'n gwella iechyd a llesiant pobl ac anifeiliaid, yn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac adfer byd natur, yn gwella'r amgylchedd byw a gweithio, yn cyfoethogi cymdeithas a diwylliant, ac yn hyrwyddo mwy o gydraddoldeb. Mae'n cynrychioli tua 100 o sefydliadau er budd y cyhoedd, ac yn meithrin y mudiad newid, gan weithio gyda llawer o sefydliadau eraill ar lefel lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

sustain@sustainweb.org